# Llwybr Golwg yr Aman

## Hyd: 3.35km (2.1 o filltiroedd)

Mae'r daith hon yn dechrau o'r maes parcio wrth ymyl capel Bryn Seion. Mae hanes sgwâr y pentref wedi'i gofnodi ar y panel y byddwch yn mynd heibio iddo y tu allan i fynedfa'r maes parcio. Defnyddiwch y groesfan gerddwyr i groesi'r briffordd, a chadwch i'r chwith er mwyn cerdded i lawr Heol yr Orsaf. Croeswch y groesfan reilffordd. Y caban signalau ar y chwith yw'r cyfan sy'n weddill bellach o orsaf reilffordd Cwmaman. Yr Amman Hotel oedd yr adeilad mawr ar y dde yn wreiddiol.

Wrth y gyffordd, croeswch y ffordd ac ewch i'r dde ar hyd y llwybr troed sydd wedi'i darmacio. Dyma lwybr glan yr afon a fydd yn eich arwain i Barc Golwg yr Aman sydd yng nghanol cymuned Cwmaman. Saif panel treftadaeth lleol ar ddechrau'r llwybr hwn. Wrth i chi gerdded ar hyd glan yr afon, sylwch ar yr ystâd ddiwydiannol fach ar y dde. Hwn oedd safle gwaith Raven Steel Sheet & Galvanising Works (1881-1936).

Arhoswch ar y llwybr sydd wedi'i darmacio wrth fynd heibio i ddwy bont droed sy'n croesi afon Aman. Byddwch yn cyrraedd Parc Golwg yr Aman yn awr, a grëwyd yn ystod yr 1990au. Ewch yn eich blaen nes cyrraedd y drydedd bont droed sy'n croesi'r afon, lle saif panel treftadaeth lleol. Sylwch hefyd ar ddwy garreg goffa sydd wrth ymyl y fan hon. Ar y dde ceir cofeb i Waith Tunplat Aman, sy'n cynnwys carreg sylfaen y gwaith. Mae'r gofgolofn rhyfel gerllaw i goffáu'r bobl leol a fu farw yn ystod rhyfeloedd y gorffennol.

Ewch dros y bont droed er mwyn cyrraedd ochr ogleddol yr afon. Cafodd pobl Cwmaman y tir hwn yn rhodd gan yr Arglwydd Dinefwr yn 1909 i'w ddefnyddio at ddibenion hamdden. Cafodd ei alw'n wreiddiol yn Faes Chwarae Cwmaman, ac yn ddiweddarach rhoddwyd yr enw Parc Garnant iddo. Trowch i'r chwith ac ewch heibio i'r lawnt fowlio nes cyrraedd cae Clwb Rygbi'r Aman. Mae'r cae wedi bod yn gartref i'r clwb rygbi enwog hwn ers 1909-10. Mae Clwb Rygbi'r Aman wedi meithrin nifer fawr o chwaraewyr rygbi talentog, a'r diweddaraf ohonynt oedd y chwaraewr rhyngwladol, Shane Williams, a enillodd wobr Chwaraewr y Flwyddyn y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol yn 2009.

Trowch i'r chwith ar ôl mynd heibio i'r cae rygbi, ac ewch dros y bont sy'n croesi'r afon. Ewch yn syth yn eich blaen i fyny'r bryn a thros bont sy'n croesi'r rheilffordd, heibio i gapel Bethel Newydd. Defnyddiwch y groesfan gerddwyr sydd wrth ymyl tafarn yr Half Moon, ewch i fyny Heol Ceidrim ar y dde, a throwch i'r dde i mewn i Heol Ceidrim Newydd sydd 125 metr ymhellach i fyny. Cerddwch i lawr Heol Ceidrim Newydd nes cyrraedd Parc Gelliwerdd, lle ceir panel treftadaeth lleol ar hen safle Pwll Glo Gelliceidrim. Mae'r llwybr troed yn parhau trwy'r parc sydd ar hen safle'r tomenni glo enfawr. Ar ôl 650 metr byddwch yn dod at dro sydyn, a bydd y llwybr yn eich arwain i lawr i'r maes parcio, sef man cychwyn eich taith.

# The Golwg yr Aman Trail

## Length: 3.35km (2.1 miles)

This walk stars from the car park next to Bryn Seion chapel. A history of the village square is given on the panel you pass outside the car park entrance. Use the pedestrian crossing to cross the main road and bear left to go down Station Road. Cross the level crossing on the railway. The signal box on the left is all that now remains of Cwmamman railway station. The large building on your right was originally the Amman Hotel.

At the road junction cross the road and go right along the tarmaced footpath. This is the Riverside walk, which takes you into Parc Golwg yr Aman, at the heart of Cwmamman community. A local heritage panel stands at the start of this path. As you walk along the riverside, note the small industrial estate on your right. This was the site of the Raven Steel Sheet and Galvanising Works (1881-1936).

Stay on the tarmaced path past two footbridges which cross the River Amman. You now enter Parc Golwg yr Aman, created during the 1990s. Carry on to a third footbridge across the river, where a local heritage panel stands. Near here you will also see two memorial stones. To your right is the memorial to the Amman Valley Tinplate Works, which includes its foundation stone. Nearby is the war memorial stone, commemorating local people who have died in past wars.

Cross the footbridge bridge to the northern side of the river. The land here was given to the people of Cwmamman by Lord Dynevor in 1909 for recreational use. It was originally called the Cwmamman Recreation Ground and was later known as Garnant Park. Turn left, past the bowling green to the Amman United rugby ground. This has been the home of this famous rugby club since 1909-10. Amman United has produced a long line of talented rugby players, the latest of which was Welsh international Shane Williams, the IRB Player of the Year in 2009.

After passing the rugby ground, turn left and cross the river bridge. Go straight ahead up the hill and across a railway bridge, past New Bethel Chapel. Use the pedestrian crossing at the Half Moon pub, go up Ceidrim Road on your right, and turn right into New Ceidrim Road, 125 metres further up. Walk down New Ceidrim Road and into Gelliwerdd Park, where there is a local heritage panel on the former site of Gelliceidrim Colliery. The footpath continues through the park, which marks the site of the once massive colliery tips. After 650 metres there is a sharp hairpin turn, and the path descends to the car park where you started your walk.